Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Orthodontig (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Caerphilly Orthodontics

18 Ionawr 2017

19 Ebrill 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch ậ ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu ậ ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-9060-4


© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2

2. Cyd-destun .......... 3

3. Crynodeb .......... 4

4. Canfyddiadau .......... 5

Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 7

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 9

5. Y Camau Nesaf .......... 10

6. Methodoleg .......... 111

Atodiad A .......... 13

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Caerphilly Orthodontics yn 5 Stryd Thomas, Abertridwr, Caerffili, CF83 4AU, ar 18 Ionawr 2017.

Roedd AGIC yn archwilio sut roedd Caerphilly Orthodontics yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau orthodontig ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf - Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Caerphilly Orthodontics yn gweithredu un diwrnod yr wythnos o Ddeintyddfa Abertridwr ac mae'n darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Abertridwr yng Nghaerffili. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Practis cymysg yw hwn, sy'n darparu gwasanaethau orthodontig preifat ac i'r GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau orthodontydd, dwy nyrs ddeintyddol ac un rheolwr practis.

Mae'r orthodontyddion a'r staff clinigol ategol yn Caerphilly Orthodontics hefyd yn gweithio yn Cathedral Orthodontics (80 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LN).

Cafodd Cathedral Orthodontics a Deintyddfa Abertridwr eu harolygu gan AGIC yn 2016. Mae adroddiadau ar ein canfyddiadau ar gael ar wefan AGIC (www.agic.org.uk).

Cyn yr arolygiad hwn, bu inni ystyried canfyddiadau ein harolygiadau blaenorol o'r ddau bractis. Bu inni ddefnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod yr arolygiad yn canolbwyntio ar brofiad y claf ac elfennau penodol o'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol, ac o reolaeth ac arweinyddiaeth y practis.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod Caerphilly Orthodontics yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y practis yn gwneud yr hyn a ganlyn yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd cyfarpar digonol yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn amlwg yn lân ac yn daclus
- Roedd offer deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol
- Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi gan uwch aelodau staff y practis.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r hyn a ganlyn:

- Mae angen sicrhau ei bod yn haws i gleifion gael gafael ar wybodaeth ynglŷn â sut i gyflwyno cwyn
- Mae angen gweithredu proses ar gyfer cael adborth gan gleifion am y gwasanaethau a ddarperir iddynt.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom fod y cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Nododd y cleifion a ddarparodd sylwadau eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant.**

Cyn yr arolygiad, bu inni wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn casglu safbwyntiau am y gwasanaethau orthodontig a ddarperir. Cyflwynwyd 21 o holiaduron wedi'u llenwi inni ac roedd y rhain yn dangos bod mwyafrif y cleifion yn fodlon ar y gofal a gawsant. Ychwanegodd un claf sylw am y practis, gan ddatgan:

> *'Proffesiynol iawn, staff bob amser yn hapus, dim problem gydag apwyntiadau'*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwnaethom arsylwi bod y rhyngweithiadau rhwng y cleifion a'r staff yn gadarnhaol, yn gyfeillgar, ac yn broffesiynol.

Dywedodd cleifion Caerphilly Orthodontics wrthym eu bod yn cael croeso gan y practis a'u bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Roedd y practis yn darparu triniaethau orthodontig preifat ac i'r GIG. Roedd gwybodaeth am driniaethau orthodontig preifat wedi'i harddangos i'r cleifion, gan olygu bod modd i gleifion ganfod faint y gallai eu triniaeth ei gostio. Nid oedd disgwyl i gleifion sy'n gymwys i gael triniaeth orthodontig y GIG dalu am eu triniaeth.

Roedd taflen â gwybodaeth am y practis ar gael yn y dderbynfa, a oedd yn darparu gwybodaeth gyffredinol am y practis i gleifion ei chadw a'i darllen.

<u>Gofal amserol</u>

Canfuom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd mwyafrif y cleifion a lenwodd holiadur wrthym nad oeddent wedi profi oedi sylweddol cyn cael eu gweld gan yr orthodontydd. Dywedodd staff wrthym y byddent yn rhoi gwybod i'r cleifion ar lafar pe bai unrhyw oedi o ran amseroedd apwyntiadau.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion pe bai angen triniaeth frys arnynt. Sicrhaodd y practis fod y rhif ffôn hwn ar gael drwy'r neges ar y ffôn ateb ac yn ei daflen wybodaeth i gleifion.

Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth hyrwyddo iechyd ar gael i'r cleifion yn y practis, a hynny i helpu i hyrwyddo'r angen iddynt ofalu am eu hiechyd a hylendid ceg eu hunain. Dywedwyd wrthym fod yr orthodontyddion yn neilltuo amser yn ystod apwyntiadau i ddangos i'r cleifion sut i gynnal eu hiechyd ceg tra oeddent yn cael triniaethau orthodontig.

Gofal unigol

Mae Caerphilly Orthodontics wedi'i leoli mewn deintyddfa yn Neintyddfa Abertridwr (y practis sy'n lletya), un diwrnod yr wythnos. Mae'r ddeintyddfa y mae Caerphilly Orthodontics yn ei defnyddio wedi'i lleoli ar lawr gwaelod y practis. Roedd ramp a chanllawiau yn y practis i gynorthwyo cleifion sydd ag anawsterau symudedd i ddefnyddio'r gwasanaeth.

Roedd taflen wybodaeth y practis yn cyfeirio at wybodaeth i'r cleifion ynglŷn â sut i grybwyll pryder (cwyn). Roedd gan y practis bolisi cwynion manwl ac roedd ar gael i'r cleifion drwy ofyn amdano. Er bod proses gwynion y practis sy'n lletya wedi'i harddangos yn ardal y dderbynfa, nid oedd y broses gwynion i gleifion Caerphilly Orthodontics wedi'i harddangos. Gwnaethom argymell wrth reolwr y practis y dylai'r practis arddangos ei bolisi cwynion ei hun fel bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd i gleifion Caerphilly Orthodontics pe baent am grybwyll pryder. Cytunodd rheolwr y practis i roi hynny ar waith.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai polisi cwynion Caerphilly Orthodontics gael ei arddangos yn amlwg yn y practis fel bod cleifion yn gallu cael gafael ar y weithdrefn yn rhwydd.***

Dywedwyd wrthym y byddai pob cwyn yn cael ei chofnodi ac y byddai manylion yn cael eu cadw am y camau a gymerir yng nghyswllt pob cwyn. Roedd hyn yn galluogi'r practis i adolygu cwynion, cymryd camau i ddatrys unrhyw broblemau, a chyflwyno adborth i'r cleifion.

Nid oedd gan y practis ddull i'r cleifion gyflwyno adborth am y gwasanaethau orthodontig a ddarperir. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gyflwyno system ar gyfer casglu adborth gan gleifion yn rheolaidd. Cytunodd rheolwr y practis i wneud hynny.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis weithredu system ar gyfer mynd ati i gasglu adborth gan gleifion yn rheolaidd am y gwasanaeth a ddarperir.***

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Canfuom fod Caerphilly Orthodontics yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.**

Gofal diogel

Dywedwyd wrthym fod y practis sy'n lletya'n gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd, a gwelsom gofnodion i ategu hynny. Roedd hyn yn cynnwys y gwiriadau a'r gwaith cynnal yng nghyswllt y cyfarpar dadheintio, cyfleusterau a chyfarpar radiograffig; gwirio'r cyfarpar a'r cyffuriau brys; rheoli gwastraff; a gwaith glanhau cyffredinol y practis.

Gwelsom mai staff y practis sy'n lletya a oedd yn cynnal gwiriadau o'r cyfarpar dadheintio, ac roedd cofnodion yn cael eu cynnal i ddangos bod y cyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio. Dywedwyd wrthym fod staff Caerphilly Orthodontics yn eu sicrhau eu hunain fod y cyfarpar yn parhau'n ddiogel i'w ddefnyddio drwy edrych ar y cofnodion a oedd yn cael eu cynnal gan y practis sy'n lletya ar ddechrau'r diwrnod. Gwnaethom argymell wrth reolwr y practis y gall y staff sy'n cynnal y gwiriadau fod am gydlofnodi'r cofnodion er mwyn ffurfioli'r broses. Cytunodd rheolwr y practis i wneud hynny.

Cafodd proses ddadheintio drylwyr ei disgrifio gan y staff a chawsom ein sicrhau eu bod wedi mynd i hyfforddiant ar ddadheintio (oherwydd gwelwyd tystysgrifau o'r blaen yn ystod yr arolygiad o Cathedral Orthodontics).

Nid oedd staff Caerphilly Orthodontics yn defnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn y practis sy'n lletya. O ganlyniad, ni wnaethom ystyried y trefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X ar yr achlysur hwn.

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau ar gael i'w defnyddio yn achos argyfwng claf (claf yn llewygu/cwympo) a chawsom ein sicrhau bod gan y practis sy'n lletya brosesau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar a'r cyffuriau'n parhau'n ddiogel i'w defnyddio. Dywedwyd wrthym fod staff Caerphilly Orthodontics yn eu sicrhau eu hunain fod y cyfarpar yn parhau'n ddiogel i'w ddefnyddio drwy edrych ar y cofnodion a oedd yn cael eu cynnal gan y practis sy'n lletya ar ddechrau'r diwrnod. Gwnaethom argymell wrth reolwr y practis y gall y staff sy'n cynnal y gwiriadau fod am gydlofnodi'r cofnodion er mwyn ffurfioli'r broses. Cytunodd rheolwr y practis i wneud hynny.

Cawsom ein sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant cyfredol mewn dadebru cardio-pwlmonaidd (gan fod tystysgrifau wedi'u gweld yn ystod yr arolygiad o Cathedral Orthodontics).

Gwnaethom edrych ar y ddeintyddfa a ddefnyddir gan staff Caerphilly Orthodontics. Roedd yn lân ac yn daclus. Roedd y lloriau a'r wynebau yn y ddeintyddfa yn hawdd i'w glanhau er mwyn lleihau croes-heintiadau. Roedd Caerphilly Orthodontics yn darparu ei gyfarpar orthodontig ei hun a gwelsom ei fod wedi'i storio'n briodol yn y ddeintyddfa.

Gofal effeithiol

Roedd y staff clinigol sy'n gweithio yn Caerphilly Orthodontics yn rhan o'r tîm yn Cathedral Orthodontics. O gofio bod cofnodion cleifion wedi'u harchwilio yn yr arolygiad o Cathedral Orthodontics ym mis Rhagfyr 2016, nid oeddem o'r farn fod angen ailedrych ar safon cofnodion cleifion yn yr arolygiad hwn. Serch hynny, rydym yn disgwyl y bydd camau ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw welliant sydd ei angen yn cael eu gweithredu ar draws Cathedral Orthodontics a Caerphilly Orthodontics.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Un orthodontydd a oedd yn berchen ar Caerphilly Orthodontics, ac roedd yn cael ei gynorthwyo gan reolwr practis, orthodontydd, a dwy nyrs.**

**Ystyriwyd rheolaeth ac arweinyddiaeth fel rhan o'r arolygiad o Cathedral Orthodontics ym mis Rhagfyr 2016. Yn ystod yr arolygiad hwnnw, gwelsom fod ystod o bolisïau perthnasol ar waith a oedd yn anelu at sicrhau diogelwch staff a chleifion. Dywedwyd wrthym fod y polisïau a'r gweithdrefnau yn berthnasol i'r staff sy'n gweithio yn Caerphilly Orthodontics ac yn Cathedral Orthodontics.**

Roedd rheolwr practis yn gyfrifol am reoli Caerphilly Orthodontics ac roedd hefyd yn darparu cymorth gweinyddol i'r orthodontyddion a'r staff nyrsio. Dywedwyd wrthym fod perthynas waith dda rhwng perchnogion practis Caerphilly Orthodontics a'r practis sy'n lletya.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod trefniadau ar waith i sicrhau bod y ddau bractis yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd.

Mewn trafodaethau â'r staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad, dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda gan dîm cyfan y practis. Dywedodd y staff wrthym fod pawb yn y tîm staff yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd. Gwelsom fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn Cathedral Orthodontics, a byddai unrhyw wybodaeth a oedd yn ymwneud â Caerphilly Orthodontics yn benodol yn cael ei hamlygu fel rhan o'r cyfarfodydd hynny.

Cawsom ein sicrhau bod staff wedi mynd i hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi gan inni weld ardystiad ategol yn ystod yr arolygiad o Cathedral Orthodontics.

Ni wnaethom ystyried polisïau a gweithdrefnau Caerphilly Orthodontics oherwydd ystyriwyd y rhain fel rhan o'r broses o arolygu Cathedral Orthodontics.

Roedd yr orthodontyddion sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd eu tystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn amlwg fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ynghylch deintyddiaeth breifat.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis orthodontig gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Caerphilly Orthodontics yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

# 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[1] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[2] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Orthodontig: Cynllun Gwella

## Practis: Caerphilly Orthodontics

## Dyddiad yr Arolygiad: 18 Ionawr 2017

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | Dylai polisi cwynion Caerphilly Orthodontics gael ei arddangos yn amlwg yn y practis fel bod cleifion yn gallu cael gafael ar y weithdrefn yn rhwydd. | Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015)<br>Safon 6.3<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u | Mae'r mater hwn wedi cael sylw ac mae hysbysiad ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell aros yn awr. | P Naish | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | diwygiwyd)<br>Rheoliad 15(2) | | | |
| 7 | Dylai'r practis weithredu system ar gyfer mynd ati i gasglu adborth gan gleifion yn rheolaidd am y gwasanaeth a ddarperir. | Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015)<br>Safon 6.3 | Mae ffurflen arolwg boddhad cleifion wedi cael ei chynhyrchu a bydd yn cael ei defnyddio'n rheolaidd o 1 Ebrill 2017. | P Naish | 1 Ebrill 17 |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| | Nid oes angen cynllun gwella | | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Nid oes angen cynllun gwella | | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras): ....Philip Naish..........................................................................**

**Teitl: ...Dr Philip Naish..........................................................................**

**Dyddiad: ...21/03/2017..........................................................................**